



## Llywodraeth Cymru Dogfen Ymgynghori

### Siarad gyda fi

Siarad gyda fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu, 2020-21

Dyddiad cyhoeddi: 30 Ionawr 2020  
Camau gweithredu gofynnol: Ymatebion erbyn 23 Ebrill 2020

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English.

**Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn trafod ymgyrch genedlaethol Llywodraeth Cymru i hybu datblygiad mewn Lleferydd, laith a Chyfathrebu, yn y blynyddoedd cynnar yn bennaf, ond mae hefyd yn berthnasol i'r ystod oedran 0-25 oed fel y cwmpesir yn y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol.

**Sut i ymateb** Cwblhewch yr holiadur yng nghefn y ddogfen a'i ddychwelyd i [FlyingStart2@gov.wales](mailto:FlyingStart2@gov.wales) Ewch i'r digwyddiadau a gynhelir.

**Camau gweithredu gofynnol:** Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi'r trefniadau arfaethedig i hybu a chefnogi datblygiad mewn Lleferydd, laith a Chyfathrebu ledled Cymru ac mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd sylwadau ar y cynigion.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.**

[Canllawiau Dechrau'n Deg ar Leferydd, laith a Chyfathrebu](#)

**Dogfen gysylltiedig: Manylion cyswllt**

Os oes gennych ymholiadau pellach am y ddogfen hon, cysylltwch â:

Yr Is-adran Plant a Theuluoedd,  
Y Gyfarwyddiaeth Cymunedau a Threchu Tlodi,  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Ffôn: 03000 253344

E-bost: [FlyingStart2@gov.wales](mailto:FlyingStart2@gov.wales)

**Cynulleidfa:** Pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio yn y sector plant gyda ffocws ar leferydd, iaith a chyfathrebu, gan gynnwys:

- Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith,
- Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol Dechrau'n Deg,
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llwybr Iaith Gynnar Cymru,
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen DLD,
- Grŵp Rhagoriaeth Glinigol Amlieithrwydd,
- Fforwm Cynghori Therapi Lleferydd ac Iaith Cymru (WSLTAF),
- Bydwreigiaeth,
- Fforwm Ymwelwyr Iechyd Cymru Gyfan,
- Nyrsgys Iechyd Ysgolion, Iechyd Cyhoeddus Cymru,
- Arweinwyr Seicoleg / Iechyd Meddwl Babanod,
- Arweinwyr Dechrau'n Deg – Arweinwyr Iechyd / Arweinwyr Addysg,
- Arweinwyr Teuluoedd yn Gyntaf – Arweinwyr Iechyd / Arweinwyr Addysg,
- Gweithwyr Proffesiynol yn y Cyfnod Sylfaen o Awdurdodau Lleol a Consortia Rhanbarthol.
- Arweinydd Trawsnewid ADY,
- Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y Blynyddoedd Cynnar,
- Hyb Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, y Trydydd Sector – Plant yng Nghymru,
- Barnardo's,
- Achub y Plant,
- Dechrau Da,
- Mudiad Meithrin,
- Gofal Cymdeithasol Cymru,
- Cwlwm,
- PACEY,
- Cymdeithas Genedlaethol y Meithrinfeydd Dydd,
- Blynyddoedd Cynnar Cymru,
- Clybiau Plant Cymru,
- Arloeswyr Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar,
- Arolygiaeth Gofal Cymru,
- Estyn,
- Cynghorwyr y Grant Datblygu Disgyblion (PDG),
- Consortia Addysg Rhanbarthol – ERW,
- GWE,
- Consortiwm Canolbarth y De,
- GCA (Seicoleg Addysgol / Gwasanaeth Cynghori / Ysgolion Iach).

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gcontract yr ymgwymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan amgylchiadau penodol) i wrthwynebu prosesu neu gyfyngu ar brosesu
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu dileu
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD

CF10 3NQ

e-bost:

[Swyddogdiogeludata@llyw.cymru](mailto:Swyddogdiogeludata@llyw.cymru)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r  
Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

•

<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen</b>
<b>Trosolwg</b>	<b>7</b>
<b>Y ffordd ymlaen yng Nghymru</b>	<b>8</b>
<b>Cynllun cyflawni – Amcan 1</b>	<b>11</b>
<b>Cynllun cyflawni – Amcan 2</b>	<b>13</b>
<b>Cynllun cyflawni – Amcan 3</b>	<b>15</b>
<b>Cynllun cyflawni – Amcan 4</b>	<b>17</b>
<b>Cwestiynau'r ymgynghoriad</b>	<b>23</b>

## Trosolwg – Siarad gyda fi

### Lleferydd, iaith a Chyfathrebu: Cynllun Cyflawni 2020-2021

*Mae Llywodraeth Cymru yn anelu at godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd Lleferydd, iaith a Chyfathrebu a sicrhau y caiff ymyriadau eu cyflawni ar gyfer pawb lle y bo eu hangen.*

Mae gan fwy na 10% o blant a phobl ifanc anghenion Lleferydd, iaith a Chyfathrebu hirdymor sy'n creu rhwystrau rhag cyfathrebu neu ddysgu mewn bywyd pob dydd<sup>1</sup>.

Mae gwaith ymchwil yn dangos bod plant sy'n byw mewn tlodi yn dioddef yn anghymesur o oedi mewn datblygu iaith<sup>2</sup>. Hynny yw, y plant hynny y mae eu sgiliau iaith yn datblygu'n llawer arafach na sgiliau plant eraill o'r un oed nad oes ganddynt anhwylder penodol. Mae sgiliau iaith yn ffactor allweddol yn y cylchoedd rhwng y cenedlaethau a all wneud i dlodi barhau am byth, wrth i sgiliau cyfathrebu gwael gael eu trosglwyddo o'r rhiant i'r plentyn<sup>3</sup>.

### Ffeithiau allweddol

- Gall dros **50%** o blant mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol ddechrau ysgol â sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu cyfyngedig<sup>4</sup>.
- Gwnaeth **un o bob pedwar plentyn** a gafodd anawsterau iaith yn 5 oed fethu â chyradd y safon ddisgwylidig mewn Saesneg ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd, o gymharu ag un o bob 25 o blant a oedd yn meddu ar sgiliau iaith da yn 5 oed<sup>5</sup>.
- Mae ymchwilwyr wedi canfod, ar ôl rheoli ar gyfer amrywiaeth o ffactorau eraill a allai fod wedi cyfrannu (lefel addysg y fam, gorboblogi, pwysau geni isel, rhiant sy'n ddarllenwyr gwael ac ati), **fod plant a oedd yn meddu ar sgiliau dieiriau normal ond geirfa wael yn 5 oed unwaith a hanner yn fwy tebygol o fod yn ddarllenwyr gwael neu o gael problemau iechyd meddwl yn 34 oed a mwy na dwywaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith na phlant yr oedd eu hiaith yn datblygu'n normal yn 5 oed<sup>6</sup>.**
- **Geirfa yn 5 oed yw'r ffordd orau o ragweld (o ystod o fesurau yn 5 a 10 oed) a allai plant a brofodd amddifadedd cymdeithasol yn ystod plentyndod 'fynd yn groes i'r duedd' ac osgoi tlodi yn ddiweddarach mewn bywyd fel oedolion<sup>7</sup>.**

<sup>1</sup> ICAN, 2006

<sup>2</sup> Law, 2013

<sup>3</sup> [Hart a Risley, 2003](#)

<sup>4</sup> [Locke et al, 2002](#)

<sup>5</sup> [Achub y Plant, 2016](#)

<sup>6</sup> [Law, 2010](#)

<sup>7</sup> [Blanden, 2006](#)

## Y ffordd ymlaen yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n adeiladol gyda Choleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (RCSLT) yng Nghymru i godi proffil Lleferydd, iaith a Chyfathrebu yn y blynyddoedd cynnar a rhoi mesurau ar waith i chwalu'r rhwystrau sy'n atal plant iau rhag gwneud cynnydd o ran caffael iaith yn gynnar.

Mae RCSLT wedi dweud wrthym fod angen inni edrych o'r newydd ar y ffordd y caiff cymorth ar gyfer Lleferydd, iaith a Chyfathrebu ei gynnig a'i ddarparu ledled Cymru er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn deg ac yn cyrraedd pob plentyn y gall fod angen cymorth arno.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd datblygiad plentyn yn y blynyddoedd cynnar. Mae hyn yn cynnwys caffael sgiliau lleferydd ac iaith a llafaredd sy'n sail i'w gallu i ddysgu darllen, ysgrifennu a datrys problemau. Ceir cysylltiad cryf rhwng y datblygiad hwn a llwyddiant plentyn yn yr ysgol a'i allu i ymuno â'r gweithlu<sup>8</sup>.

Gallai fod angen cymorth ychwanegol ar unrhyw blentyn, ni waeth ble mae'n byw na beth yw ei amgylchiadau teuluol, i fynd i'r afael ag oedi neu anawsterau o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu. Ein nod yw sicrhau y gall plant ledled Cymru gael gafael ar gymorth o safon uchel, boed yn gymorth cyffredinol, yn gymorth wedi'i dargedu neu'n gymorth arbenigol, yn y blynyddoedd cynnar – os oes angen – i feithrin eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Er mwyn symud hyn yn ei flaen, rydym yn ystyried sut y gallem gymryd y dysgu o'r gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith o fewn Dechrau'n Deg a darpariaeth gyffredinol a gwreiddio'r arferion da hyn yn ehangach.

Nod y cynllun cyflawni drafft hwn yw ysgogi gwelliant yn y ffordd y caiff plant yng Nghymru eu cefnogi i feithrin eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu. Fe'i datblygwyd mewn ymgynghoriad ag RCSLT a Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol Lleferydd, iaith a Chyfathrebu Dechrau'n Deg sydd wedi ein helpu i nodi'r camau gweithredu y mae angen inni eu cymryd dros y blynyddoedd nesaf.

Mae Gweinidogion a swyddogion wedi cydweithio ar y cynllun drafft er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu ar draws y sectorau (gan gynnwys addysg, iechyd a pholisi 'cymdeithasol') mewn ffordd sy'n ymgysylltu â theluoedd ac yn adeiladu ar y polisiau sydd eisoes yn bodoli a'r hyn sy'n gweithio.

Cydnabyddir drwy waith ymchwil wedi'i gomisiynu<sup>9</sup> nad oes angen i Gymru ddyfeisio model cyflawni newydd. Yn lle hynny, mae angen gweithredu'n fwy strategol er mwyn gwneud i'r gweithgareddau presennol weithio ym mhob lleoliad yng Nghymru.

Caiff y trefniadau llywodraethu rhaglenni angenrheidiol eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod pob partner yn cyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â'r ymrwymadau yn y

---

<sup>8</sup> [EIF.ORG.UK](http://EIF.ORG.UK)

<sup>9</sup> [Astudiaeth i fapio'r ddarpariaeth addysgol bresennol o ran cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu yng Nghymru, ar gyfer dysgwyr 0-25 oed](#)



cynllun drafft hwn. Rhoddir diweddariadau rheolaidd ar gynnydd i'r holl Weinidogion er mwyn sicrhau bod y gwaith pwysig hwn yn cael sylw cyson.

Mae'r **cynllun cyflawni drafft** wedi'i rannu'n bedwar amcan allweddol:

**Amcan 1:** Codi Ymwybyddiaeth y Cyhoedd – sut y byddwn yn cyrraedd rhieni<sup>10</sup> â'n negeseuon allweddol am bwysigrwydd siarad â babanod a phlant bach, ymgysylltu â nhw a chwarae gyda nhw.

**Amcan 2:** Gwella'r ffordd y caiff sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant eu hasesu (yn y Blynyddoedd Cynnar) – sut y byddwn yn safoni'r broses asesu, gan nodi problemau lleferydd, iaith a chyfathrebu yn gynnar a sicrhau y caiff ymyriad prydlon ei roi ar waith.

**Amcan 3:** Uwchsgilio'r gweithlu gofal plant a gweithwyr ieuchyd proffesiynol perthnasol yng Nghymru er mwyn diwallu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu – sut y byddwn yn sicrhau bod y gweithlu gofal plant yn hynod hyfforddedig ac yn meddu ar y sgiliau i gefnogi ymyriadau ar gyfer plant a theuluoedd lle y nodwyd anghenion o ran datblygiad iaith, lleferydd a chyfathrebu.

**Amcan 4:** Gwreiddio lleferydd, iaith a chyfathrebu ym mholisiau Llywodraeth Cymru – sut y byddwn yn adolygu ein polisiau a'n strategaethau er mwyn sicrhau eu bod yn tynnu sylw at bwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y blynyddoedd cynnar a thu hwnt.

### **Nodau'r ymgynghoriad**

Rydym yn gwahodd pawb y mae eu gwaith a'u cyfrifoldebau yn effeithio, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu i gyfrannu at y sgwrs a nodi unrhyw gamau gweithredu pellach y gall fod angen inni eu cymryd er mwyn codi proffil lleferydd, iaith a chyfathrebu ymhellach. Bydd angen i bob rhan o'r system (addysg, ieuchyd, 'polisi' cymdeithasol ac ati) gydweithio'n dda â'i gilydd er mwyn ein helpu i lwyddo.

Ein huchelgais yw gwneud mwy i gefnogi plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ac adeiladu ar yr hyn y gwyddom sy'n gweithio er mwyn i bob plentyn gael y dechrau gorau mewn bywyd.

Bydd y cynllun cyflawni drafft hwn yn canolbwyntio ar gamau gweithredu a/neu ymrwymadau y gall fod angen i bob partner allweddol eu cyflawni er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cael cymorth priodol i wireddu eu potensial.

Diben y cynllun cyflawni drafft hwn yw llywio sgysiau â rhanddeiliaid allweddol, canfod yr hyn sy'n gweithio i gefnogi plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, a nodi pa gamau gweithredu eraill y gallem ystyried eu cymryd yn y dyfodol.

---

<sup>10</sup> Defnyddir y term torfol 'rhieni' drwy'r ddogfen hon i gyd, ond mae hyn yn cynnwys rhieni maeth a rhieni mabwysiadol/gwarcheidwaid.

## Amcan 1: Codi Ymwybyddiaeth y Cyhoedd

**Amcan 1:** Bydd rhieni'n fwy gwybodus a chymwys i ddeall pwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu i'w plentyn yn ystod y blynyddoedd cynnar

Cam Gweithredu Allweddol	Gweithgaredd	Amserlen	Arweinydd Cyflawni
1. Hyrwyddo negeseuon allweddol ymhlith rhieni am bwysigrwydd siarad â phlant, ymgysylltu â nhw a chwarae gyda nhw yn y blynyddoedd cynnar er mwyn datblygu eu gallu i gaffael iaith.	1.1 Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch gyhoeddusrwydd genedlaethol.	O fis Ebrill 2020	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Plant a Theuluoedd
	1.2 Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn datblygu ac yn darparu fersiwn ddigidol o'r negeseuon allweddol cenedlaethol ynghylch lleferydd, iaith a chyfathrebu y cytunwyd arnynt. Caiff y negeseuon hyn eu cyflwyno ledled Cymru fesul cam yn dilyn cyfnod treialu.	Yn barhaus o fis Ebrill 2020	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
	1.3 Bydd y BBC yn cyflwyno ei rhaglen flaenllaw <i>Tiny Happy People</i> dros gyfnod o bum mlynedd. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn rhan o'r gwaith o dreialu adnoddau ar yr ail gam ar gyfer plant 0-12 mis oed.	Lansiad swyddogol ym mis Chwefror 2020	BBC
	1.4 Bydd ymgyrch <a href="#">Magu Plant. Rhowch amser iddo</a> yn cynnwys lleferydd, iaith a chyfathrebu yn ei dull cyfathrebu cyffredinol ac yn helpu i ledaenu negeseuon allweddol.	Yn barhaus	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Plant a Theuluoedd
	1.5 Mae Rhaglen Plant Iach Cymru yn cynnwys ffocws penodol ar leferydd, iaith a chyfathrebu yn yr	Yn barhaus (ers 2016)	Llywodraeth Cymru – Iechyd

	<p>adolygiad iechyd y teulu a gynhelir gan ymwelydd iechyd ar ôl 15 mis. Fel rhan o'r cynlluniau arfaethedig i ehangu Rhaglen Plant Iach Cymru, caiff cyfleoedd i ymgorffori lleferydd, iaith a chyfathrebu eu hystyried.</p>		
	<p>1.6 Parhau i gynnal ymgyrch <i>Mae 'na Amser i Siarad, Gwranddo a Chwarae</i> sy'n annog rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid i dreulio amser yn siarad â'u plant, yn chwarae gyda nhw ac yn gwranddo arnynt er mwyn eu helpu i ddatblygu iaith a meithrin sgiliau cyfathrebu (yn targedu plant 3-7 oed).</p>	<p>Yn barhaus</p>	<p>Llywodraeth Cymru – Addysg</p>
	<p>1.7 Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wrthi'n llunio cyfres o adnoddau gwybodaeth i rieni gyda'r bwriad o ddisodli <i>Naw Mis a Mwy</i>. Byddwn yn ceisio sicrhau y bydd ymwybyddiaeth o leferydd, iaith a chyfathrebu yn rhan o'r adnoddau newydd.</p>	<p>O fis Ebrill 2020</p>	<p>Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru – Iechyd</p>
	<p>1.8 Er bod negeseuon <i>Cymraeg i Blant</i> am ddatblygiad iaith Gymraeg yn cael eu rhannu â rhieni a darpar rieni drwy nifer o ddulliau, rydym yn cydnabod bod cyfle i ddatblygu'r negeseuon hyn a'u teilwra i anghenion gwahanol gnulleidfaoedd. Byddwn yn ystyried sut y gellir atgyfnerthu'r negeseuon hyn dros y flwyddyn nesaf er mwyn i deuluoedd ddeall eu rôl wrth ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg eu plentyn, yn ogystal â'r cymorth sydd ar gael iddynt.</p>	<p>Erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2020-21 (Mawrth 2021)</p>	<p>Llywodraeth Cymru – Y Gymraeg</p>

**Amcan 2: Gwella'r ffordd y caiff sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant eu hasesu (yn y Blynyddoedd Cynnar)**

**Amcan 2:** Byddwn yn nodi arwyddion cynnar o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ac yn sicrhau ein bod yn cyflawni ymyriadau priodol i bawb lle y bo eu hangen.

<b>Cam Gweithredu Allweddol</b>	<b>Gweithgaredd</b>	<b>Amserlen</b>	<b>Arweinydd Cyflawni</b>
2. Sicrhau y caiff datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu plant ei asesu ar yr adeg gywir, gan ddefnyddio'r adnoddau sgrinio mwyaf effeithiol, ac y caiff unrhyw ymyriadau angenrheidiol eu rhoi ar waith heb oedi.	2.1 Bydd Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith a Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol Dechrau'n Deg, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, yn adolygu WellComm – yr adnodd sgrinio iaith gynnar a ddefnyddir o fewn rhaglen Dechrau'n Deg ar hyn o bryd.	O fis Ebrill 2020	Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith a Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol Dechrau'n Deg
	Er mwyn sicrhau cysondeb wrth asesu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu plant, yn dilyn yr adolygiad o WellComm, ymgynghorir ynghylch unrhyw benderfyniad i barhau i ddefnyddio WellComm neu gyflwyno adnodd sgrinio newydd gyda'r nod o ddatblygu dull cyson o weithredu ledled Cymru.	Ar ôl yr adolygiad o WellComm yn 2.1	Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Plant a Theuluoedd
	2.3 Bydd Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol Dechrau'n Deg, ar y cyd â Phrifysgol Met Caerdydd a Phrifysgol Bangor yn gwneud gwaith i sicrhau bod fersiwn ddwyieithog o'r adnodd sgrinio cymeradwy ar gael ledled Cymru.	Ar ôl yr adolygiad o WellComm yn 2.1	Llywodraeth Cymru – Y Blynyddoedd Cynnar a'r Gymraeg
	2.4 Cynhelir asesiad o lefel anghenion hyfforddi Arolygiaeth Gofal Cymru mewn perthynas â datblygiad	Asesiad ym mis Hydref 2019 a	Arolygiaeth Gofal Cymru

	<p>iaith cynnar plant er mwyn helpu arolygwyr i ddeall a gwerthfawrogi datblygiad iaith cynnar plant yn well</p> <p>Yn dilyn yr asesiad, cytunwyd y bydd arolygwyr yn cael hyfforddiant rhagarweiniol ar ddatblygiad iaith cynnar plant gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac iaith, lle y bo'n briodol.</p>	<p>Hyfforddiant o fis Mawrth 2020</p>	<p>Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac iaith</p>
	<p>2.5 Bydd Arloeswyr y Blynnyddoedd Cynnar yn datblygu dull mwy integredig a chydgyssylltiedig o weithredu ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant bach a theuluoedd. Bydd hyn yn sicrhau y caiff anghenion datblygiad plant, gan gynnwys anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, eu nodi'n gynnar drwy ymyriadau cynnar gwell a mynediad gwell at wasanaethau.</p>	<p>Erbyn mis Mawrth 2021</p>	<p>Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Plant a Theuluoedd</p>

**Amcan 3: Uwchsgilio'r gweithlu gofal plant a gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol er mwyn diwallu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu**

**Amcan 3:** Bydd y gweithlu gofal plant a gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol yng Nghymru yn hynod hyfforddedig ac yn meddu ar y sgiliau i gefnogi ymyriadau ar gyfer plant a theuluoedd lle y nodwyd anghenion o ran datblygiad iaith, lleferydd a chyfathrebu.

<b>Cam Gweithredu Allweddol</b>	<b>Gweithgaredd</b>	<b>Amserlen</b>	<b>Arweinydd Cyflawni</b>
3. Sicrhau bod y gweithlu gofal plant a gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol yng Nghymru yn hynod hyfforddedig ac yn llawn cymhelliant fel bod cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cael ei roi i blant ar yr adeg gywir a bod ymyriadau'n cael eu monitro er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddatblygiad y plentyn.	3.1 Mae Cyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chonsortium De-ddwyrain Cymru i ddatblygu a threalu llwybr hyfforddiant lleferydd, iaith a chyfathrebu i staff yn y gweithlu gofal plant sy'n gyson â disgrifyddion y Ddeddf ADY. Dyluniwyd y llwybr i fod yn gyson â'r rhaglen trawsnewid ADY a'r Fframwaith Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu. Bwriedir i'r llwybr fod yn adnodd y gall ymarferwyr gofal plant ei ddefnyddio i bennu eu hanghenion hyfforddi eu hunain.	Yn barhaus	Llywodraeth Cymru – Addysg
	3.2 Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei <a href="#">Chynllun 10 mlynedd ar gyfer y Gweithlu Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae</a> . Un o gamau gweithredu allweddol y cynllun yw meithrin gallu a galluogrwydd ym mhob rhan o'r sector a chaiff pwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu ei gydnabod fel un o'r elfennau craidd hynny yn sector y blynyddoedd cynnar. Rydym wedi bod yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, AaGIC a'r sector ehangach i ddatblygu cymhwyster ymarfer proffesiynol mewn Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu fel rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau Gofal, Chwarae, Dysgu a	O fis Medi 2020	Llywodraeth Cymru – Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar

	Datblygiad Plant. Bwriedir i'r cymhwyster hwn fod ar gael o fis Medi 2020.		
	3.3 Mae gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd er mwyn eu helpu i ddiogelu a gwella eu hiechyd a'u lles, gan gynnwys sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu. Bydd hyn yn rhan o'r rhaglen weithredu newydd ar gyfer gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd.	O fis Tachwedd 2019	Llywodraeth Cymru – Iechyd
	3.4 Mae pecyn hyfforddi ar-lein yn cael ei ddatblygu ar gyfer y gweithlu lleferydd, iaith a chyfathrebu er mwyn eu helpu i fod yn ymwybodol o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a rhoi cyngor ar weithio gyda phobl y mae Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod wedi effeithio ar eu bywydau.	Yn barhaus	Llywodraeth Cymru – Yr Isadran Plant a Theuluoedd
	3.5 Cydnabyddir bod angen sgiliau penodol ar ymarferwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg sy'n defnyddio technegau trochi yn y Gymraeg. Mae hyfforddiant i ymarferwyr sy'n gweithio mewn Cylchoedd Meithrin i ddatblygu methodolegau trochi yn y Gymraeg wedi cael ei roi ar waith fesul cam ledled Cymru yn 2019-20. Er mwyn adeiladu ar hyn, byddwn yn sicrhau bod datblygu'r gweithlu yn elfen allweddol o unrhyw gamau pellach a gymerir i atgyfnerthu darpariaeth trochi yn y Gymraeg.	Yn barhaus	Llywodraeth Cymru – Y Gymraeg
	3.6 Sicrhau y caiff arferion gorau ar gyfer therapyddion lleferydd ac iaith ac ymarferwyr datblygiad iaith cynnar eu rhannu.	Yn barhaus	Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith a Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol Dechrau'n Deg



## Amcan 4: Gwreiddio lleferydd, iaith a chyfathrebu ym mholisiau Llywodraeth Cymru

Amcan 4: Bydd Llywodraeth Cymru yn sirhau bod polisiau a strategaethau perthnasol yn adlewyrchu pwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu o'r blynyddoedd cynnar a thu hwnt. Bydd pob menter polisi yn y dyfodol yn cwmpasu nod i helpu dinasyddion yng Nghymru i fynd i'r afael â phroblemau amrywiol mewn perthynas â lleferydd, iaith a chyfathrebu, lle y cânt eu nodi.

Cam Gweithredu Allweddol	Gweithgaredd	Amserlen	Arweinydd Cyflawni
4. Fel arfer safonol, caiff polisiau a strategaethau Llywodraeth Cymru eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, eu bod yn tynnu sylw at bwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y blynyddoedd cynnar a thu hwnt.	<p>4.1 Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu dull integredig o weithredu mewn perthynas ag addysg a gofal plentyndod cynnar a fydd yn seiliedig ar egwyddorion allweddol datblygiad plant. Nod y system unigol yw sicrhau cysondeb a chydlyniaeth i blant, darparwyr a rhieni.</p> <p>Mae'r gwaith hwn yn drawsbynciol ac yn cwmpasu darpariaeth a'r gweithlu, ac mae'n gysylltiedig â chymau gweithredu a restrir yn y ddogfen hon, megis helpu ymarferwyr i gefnogi plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ac ymestyn egwyddorion ansawdd ar draws pob lleoliad.</p>	Yn barhaus	Llywodraeth Cymru – Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar
	<p>4.2 Mae cefnogi'r gwaith o ddatblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu yn hanfodol er mwyn cyflawni pedwar diben y cwricwlwm newydd. Mae disgrifiadau o'r dysgu ar gyfer datblygiad llafaredd cynnar, gan gynnwys datblygu ymwybyddiaeth ffonolegol mewn ffordd systematig, wedi cael eu datblygu fel</p>	Yn barhaus	Llywodraeth Cymru – Addysg

	<p>rhan o Faes Dysgu a Phrofiad leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Bydd y Fframwaith Llythrennedd wedi'i fireinio yn cynnwys rhagor o fanylion am wrando a siarad. Bydd canllawiau cyffredin yn helpu lleoliadau ac ysgolion i ddatblygu eu cwricwla ac yn cynnwys gwybodaeth am Hygyrchedd ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).</p> <p>Er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu ac yn adlewyrchu tystiolaeth yn y maes hwn, byddwn yn ystyried anghenion plant iau a allai fod yn profi oedi o ran sgiliau lleferydd ac iaith cynnar wrth ddatblygu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• trefniadau cyn Cam Cynnydd 1 yn y cwricwlwm newydd;</li> <li>• canllawiau'r cwricwlwm newydd ar gyfer lleoliadau a ariennir nas cynhelir;</li> <li>• deunyddiau ar gyfer ymarferwyr addysg ar ddatblygiad plant er mwyn helpu i roi'r cwricwlwm newydd ar waith.</li> </ul>		
	<p>4.3 Fel rhan o delerau ac amodau'r <i>Grant Datblygu Disgyblion (PDG)</i> (o dan Blynyddoedd Cynnar 2. Targedau/Amcanion Strategol):</p> <p>Sicrhau bod darparwyr y Cyfnod Sylfaen yn mynd i'r afael â blaenoriaethau ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd</p>	Yn barhaus	Llywodraeth Cymru – Addysg

	Cynnar wrth gynllunio a phennu targedau ar gyfer datblygiad lleferydd ac iaith cynnar		
	<p>4.4 Mae <i>Cymru'n Gweithio</i> yn darparu gwasanaethau cyngor ac arweiniad ar gyflogadwyedd i unigolion yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth, a ddarperir gan Gyrfa Cymru ac a lansiwyd ym mis Mai 2019, yn cynnig un pwynt mynediad at gymorth cyflogadwyedd priodol pellach, gyda chynghorwyr gyrfaoedd cymwysedig yn sicrhau y caiff unigolion eu cyfeirio at y lle cywir ar yr adeg gywir yn dibynnu ar eu hanghenion.</p> <p>Bydd cynghorwyr yn defnyddio asesiad anghenion uwch ar sail cyngor ac arweiniad o amgylchiadau'r unigolyn a'r rhwystrau sy'n ei atal rhag symud ymlaen i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant, er mwyn gallu atgyfeirio'r unigolyn at y cymorth cywir.</p> <p>Mae gan wasanaeth <i>Cymru'n Gweithio</i> gyfoeth o wybodaeth a chysylltiad agos â gwasanaethau cyngori eraill a fydd yn cynnig un lle i gael cymorth cyflogadwyedd ar gyfer Cymru gyfan.</p>	Yn barhaus	Llywodraeth Cymru – Cyflogadwyedd a Sgiliau
	4.5 Bwriedir i'r gyfres bresennol o raglenni cyflogadwyedd, hyfforddeiaethau, ReAct, Twf Swyddi Cymru, Mynediad a'r Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd gael ei disodli gan un rhaglen, sef <i>Cymorth Swyddi Cymru</i> , ym mis Ebrill 2020. Bydd <i>Cymorth Swyddi Cymru</i> yn helpu pobl i gael gwaith. Bydd yn ymateb i	O fis Ebrill 2020	Llywodraeth Cymru – Cyflogadwyedd a Sgiliau

	<p>anghenion unigolion er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cymorth cywir i gael gwaith.</p> <p>Fel rhan o'r cymorth hwn, caiff pobl eu helpu i oresgyn rhwystrau rhag cyfranogiad, gan gynnwys sgiliau hanfodol ac anghenion dysgu ychwanegol.</p>		
	<p>4.6 <i>Dysgu ar gyfer Troseddwyr</i>: Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r ddarpariaeth addysg a dysgu a'r llyfrgelloedd carchar yng ngharchardai'r sector cyhoeddus yng Nghymru drwy <i>Femorandwm Cydddealltwriaeth</i> â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (GCPHEM). GCPHEM sy'n gyfrifol am gomisiynu'r holl addysg a dysgu a ddarperir yng ngharchardai'r sector cyhoeddus yng Nghymru er mwyn cyflawni rhagolygon cyflogaeth cynaliadwy. Mae'r cyllid yn cefnogi hyfforddiant mewn sgiliau hanfodol; mae Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST) ar waith yn CEM Caerdydd a CEM Abertawe ar hyn o bryd a chaiff ei roi ar waith fesul cam fel adnodd asesu a datblygu i bob carchar yng Nghymru erbyn diwedd 2020. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â GCPHEM i ddatblygu cwricwlwm newydd i garchardai erbyn haf 2020 ac, fel rhan o'r gwaith hwn, rhoddir ystyriaeth i gefnogi carcharorion ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae'r cyllid hefyd yn golygu y gall gwasanaethau llyfrgell mewn carchardai</p>	Yn barhaus	Llywodraeth Cymru – Cyflogadwyedd a Sgiliau

	ddarparu adnoddau i droseddwr eu defnyddio er mwyn gwella eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu ymhellach.		
	<p>4.7 Ar 21 Mai, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Glasbrintiau ar gyfer Troseddwr Benywaidd a Chyfiawnder leuenctid, a ddatblygwyd ar y cyd â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a Bwrdd Cyfiawnder leuenctid Cymru, er mwyn helpu i nodi'r cymorth ychwanegol sydd ei angen er mwyn darparu gwasanaethau cyfiawnder priodol yng Nghymru.</p> <p>Mae'r Glasbrintiau'n seiliedig ar atal ac ymyrryd yn gynnar; ystyried sut y gallwn droi pobl i ffwrdd o droseddu yn y lle cyntaf ond, pan fydd pobl yn troseddu, cânt eu cefnogi mewn ffordd gyfannol sy'n eu hadsefydlu.</p> <p>Nod y Glasbrintiau yw:</p> <p>Troi menywod, lle y bo'n briodol, i ffwrdd o droseddu a thuag at wasanaethau cymorth cymunedol a chynaliadwy sy'n canolbwyntio ar fenywod. Ystyried opsiynau ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu llywio gan drawma.</p> <p>Cysoni gwasanaethau ataliol a gynigir i blant â chyd-fodel fframwaith a chyd-ffactorau risg neu drothwyon ymyriadau er mwyn gwella canlyniadau i blant.</p>	Yn barhaus	Llywodraeth Cymru – Troseddu a Chyfiawnder

	<p>Datblygu trefniadau effeithiol ar gyfer monitro gweithgarwch atal er mwyn dangos effaith a chysoni'r trefniadau ar gyfer adrodd i Lywodraeth Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau.</p>		
--	--	--	--

**Ffurflen Ymateb  
i'r  
Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (lle y bo'n berthnasol):

e-bost/rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Nodwch yma:

Mae'n bosibl y caiff ymatebion i ymgynghoriadau eu cyhoeddi ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os ydych am i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:

**Teitl: Siarad gyda fi**

**Lleferydd, iaith a Chyfathrebu: Cynllun Cyflawni 2020-2021**

**Ymgynghoriad:**

**Cwestiwn 1(a):** Ydych chi'n credu y bydd y camau gweithredu a awgrymir gennym i hyrwyddo negeseuon allweddol ynghylch lleferydd, iaith a chyfathrebu ymhlith rhieni yn eu helpu i ddeall eu rôl wrth feithrin datblygiad iaith cynnar eu plentyn?

Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod

Sylwadau ychwanegol:

**Cwestiwn 1(b):** Beth yn rhagor y gallem ei wneud er mwyn galluogi rhieni i ymgysylltu â'r negeseuon allweddol ynghylch lleferydd, iaith a chyfathrebu?

Testun rhydd:

**Cwestiwn 2(a):** Ydych chi'n credu y gallai ymgyrch gyhoedduswydd sy'n targedu pob rhiant arwain at fwy o alw am wasanaethau lleferydd, iaith a chyfathrebu oherwydd cynnydd mewn ymwybyddiaeth (megis therapi lleferydd ac iaith)?

Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod

**Cwestiwn 2(b):** Os na fydd yr ymgyrch gyhoedduswydd yn cynyddu'r galw am wasanaethau lleferydd, iaith a chyfathrebu, beth y gellid ei wneud i reoli hyn?

Testun rhydd:

**Cwestiwn 3(a):** Ydych chi'n credu y bydd y dull a awgrymir gennym o wella'r ffordd y caiff sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu eu hasesu yn y blynyddoedd cynnar yn helpu i hwyluso canlyniadau lleferydd, iaith a chyfathrebu gwell i blant a phobl ifanc?

Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod

Sylwadau ychwanegol:



**Cwestiwn 3(b):** Oes unrhyw beth ar goll o'r dull a awgrymir gennym o wella'r ffordd y caiff sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu eu hasesu yn y blynyddoedd cynnar y mae angen i ni ei gynnwys?

Testun rhydd:
---------------

**Cwestiwn 3(c):** Ydy adnodd sgrinio WellComm mor effeithiol ag y gallai fod yn eich barn chi?

Ydy	Nac ydy	Ddim yn gwybod

Os 'Nad ydy', sut y gellid ei wella?

Sylwadau ychwanegol:
----------------------

**Cwestiwn 3(d):** Ar wahân i adnodd sgrinio WellComm, pa adnoddau eraill y byddech chi'n eu hargymell?

Testun rhydd:
---------------

**Cwestiwn 4(a):** Ydych chi'n credu y bydd ein camau gweithredu i uwchsgilio'r gweithlu er mwyn diwallu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn golygu y caiff problemau lleferydd, iaith a chyfathrebu eu nodi'n well?

Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod

Sylwadau ychwanegol:
----------------------

**Cwestiwn 4(b):** Ydych chi'n credu y bydd ein camau gweithredu i uwchsgilio'r gweithlu er mwyn diwallu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn golygu y caiff ymyriadau mwy prydlon eu rhoi ar waith?

Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod

Sylwadau ychwanegol:
----------------------

**Cwestiwn 4(c):** Oes unrhyw beth ar goll o'n cynlluniau i uwchsgilio'r gweithlu er mwyn diwallu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu?

Testun rhydd:
---------------

**Cwestiwn 5(a):** Ydych chi'n credu y byddwn yn gallu achosi newidiadau ac ysgogi gwelliannau ym maes lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y blynyddoedd cynnar drwy lunio polisau gwell? Os 'Nac ydw', esboniwch pam.

Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod

Testun rhydd:
---------------

**Cwestiwn 5(b):** Ar wahân i'r rhai a nodwyd, oes unrhyw feysydd polisi eraill y dylem eu cynnwys yn ein cynllun?

Testun rhydd:
---------------

**Cwestiwn 6(a):** Ydy'r wybodaeth yn y trosolwg yn glir ac, os nad yw'n glir, sut y gellid ei gwella?

Ydy	Nac ydy	Ddim yn gwybod

Testun rhydd:
---------------

**Cwestiwn 6(b):** Ydy'r wybodaeth yn y trosolwg yn ddefnyddiol ac, os nad yw'n ddefnyddiol, sut y gellid ei gwella?

Ydy	Nac ydy	Ddim yn gwybod

Testun rhydd:
---------------

**Cwestiwn 7:** Ar wahân i'r pedwar amcan yn y cynllun cyflawni, oes unrhyw rai eraill y dylem eu cynnwys? Rhwch fanylion.

Oes	Nac oes	Ddim yn gwybod

Testun rhydd:

**Cwestiwn 8:** Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynllun cyflawni i hybu a chefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu ymhellach ledled Cymru yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

Testun rhydd:

**Cwestiwn 9:** Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r cynllun cyflawni arfaethedig i hybu a chefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu ymhellach ledled Cymru gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Testun rhydd:

**Cwestiwn 10:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

Testun rhydd: